DYDDIAD I'W NODI!

Cymunedau Arfordirol yn Ymaddasu Ynghyd (CCAT): Cyfnewid Gwybodaeth ac Arferion Gorau ar draws Ffiniau

Cynhadledd Ar-lein

17 - 19 Tachwedd 2020

I gael mwy o wybodaeth: https://www.ccatproject.eu/cy/event/coastal-communities-adapting-together-exchanging-knowledge-and-best-practice-across-borders/

Cofrestrwch yma: https://cardiff.zoom.us/webinar/register/WN_hgqA5TGqR6GH9L96ipK1kA

I ranbarthau arfordirol, bydd rheolaeth arfordirol a pholisïau addasu i'r newid yn yr hinsawdd yn ganolog i'w haddasiad i'r newid yn yr hinsawdd a datblygu cymunedau gwydn a chynaliadwy. Mae'r newid yn yr hinsawdd yn effeithio'n uniongyrchol ar Fôr Iwerddon a'i gymunedau arfordirol. Drwy CCAT, rydym yn gweithio i gefnogi cymunedau arfordirol yn Sir Benfro (Cymru) a Fingal (Dulyn) i ddeall effaith y newid yn yr hinsawdd ar gymunedau lleol. Mae'n hanfodol nodi bod agweddau at reolaeth arfordirol a'r newid yn yr hinsawdd yn amrywio, gyda gwahanol genhedloedd yn mabwysiadu ystod o agweddau at heriau'r newid yn yr hinsawdd a rheolaeth arfordirol.

Rydym yn eich gwahodd i gymryd rhan mewn digwyddiad ar-lein fydd yn dod ag ystod amrywiol o ymarferwyr ac academyddion ynghyd, sydd ag arbenigedd mewn llunio polisïau, rheolaeth arfordirol, addasu i'r newid yn yr hinsawdd, ymgysylltu â chymunedau a rhagor! Bydd y digwyddiad yn gyfle i ddysgu gan yr hyn y mae pobl eraill yn ei wneud, ac adeiladu ar arferion gorau presennol ar gyfer rheolaeth arfordirol, addasu i'r newid yn yr hinsawdd a lliniaru ei effeithiau.

Cynhelir y digwyddiad dros dri diwrnod:

- 17 Tachwedd: Polisi Cenedlaethol ar gyfer rheolaeth arfordirol ac ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd a'i liniaru.
- 18 Tachwedd: Ymatebion Awdurdod Lleol i reolaeth arfordirol a'r newid yn yr hinsawdd
- 19 Tachwedd: Ymgysylltu â'r gymuned ynghylch y newid i'r arfordir ac ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd a'i liniaru

Bydd y digwyddiad yn croesawu siaradwyr o lywodraethau cenedlaethol a lleol ac awdurdodau perthnasol, yn ogystal ag arddangos enghreifftiau o astudiaethau achos cymunedol o ledled y DU, Iwerddon a thu hwnt. Bydd y themâu a gwmpesir ar draws ein tair sesiwn yn cynnwys:

- Cynlluniau rheolaeth arfordirol/traethlinol,
- Rheoli risgiau ynghylch erydu arfordirol a llifogydd.
- Rôl atebion sy'n seiliedig ar natur,
- Mentrau ar radd gymunedol, ac ymgysylltu â'r gymuned ynghylch rheolaeth arfordirol ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch ag Emma McKinley (mckinleye1@caerdydd.ac.uk)